Prifysgol Abertawe
Swansea University

I'w ddarllen cyn y cwrs

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Pysgota ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheoli Pysgodfeydd

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Pysgota ar gyfer y Dyfodol

Rhaglen hyfforddiant i'w defnyddio mewn gweithdai i helpu busnesau bach a chanolig eu maint i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion busnes[1].

Defnydd i'w ddarllen cyn y cwrs

Dylech chi ddarllen y nodiadau hyn a gweithredu yn eu cylch cyn y sesiwn gweithdy. Maent yn rhoi gwybodaeth gefndir am rai o'r materion amserol a allai effeithio ar eich busnes chi. Maent yn gofyn nifer o gwestiynau hefyd y dylech chi feddwl amdanynt ymlaen llaw.

Pwrpas y gweithdy

Diolch yn fawr am gofrestru i ddysgu mwy am ddatblygiad cynaliadwy ac am y ffyrdd y gallai'ch busnes chi ymateb i'r heriau a gyflwynir ganddo. Mae rhwymedigaeth ar y Cynulliad Cenedlaethol i hybu datblygiad cynaliadwy ac mae'n cynllunio gweithrediadau fydd yn effeithio ar bawb yng Nghymru, gan gynnwys busnesau mawr a mân. Mae gweithio tuag at gynaladwyedd yn creu llu o gyfleoedd busnes ac mae'n gallu gwella meintiau elw, ond efallai hefyd y bydd rhaid i fusnesau newid eu ffyrdd o weithredu os ydynt am ddiwallu gofynion mwy llym ar ran y llywodraeth.

Fe fydd y gweithdy'n eich helpu i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eich arferion busnes. Fe fyddwch yn gallu achub y blaen ar y galw cynyddol fydd arnoch i weithredu mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Ac yn benodol fe fyddwch yn fwy cymwys i:

- Esbonio'r termau datblygiad cynaliadwy a chynaladwyedd i'ch gweithlu a'ch cwsmeriaid
- Asesu sut gallai pwysedd gan y llywodraeth, cyflogwyr a chwsmeriaid o blaid datblygiad cynaliadwy effeithio ar eich busnes
- Cymhwyso syniadaeth 'asiedig' at ddarganfod atebion i broblemau ynghylch busnes a chynaladwyedd
- Defnyddio technegau sy'n eich helpu i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eich cynllunio busnes
- Paratoi cynllun gweithredu datblygiad cynaliadwy
- Cael mwy o gyngor a chefnogaeth gan sefydliadau yng Nghymru.

Pysgota hamdden

Mae sector y pysgodfeydd hamdden mewndirol yng Nghymru'n cynnwys genweirio gêm a bras ar afonydd a mewn llynnoedd naturiol ac o waith llaw dyn. Yng Nghymru mae'r mentrau hyn, yn aml oherwydd eu maint bach, yn tueddu i fod yn rhan o fusnes integredig mwy ei faint sy'n cynnwys hefyd naill ai fathau eraill o ffermio neu lety ar gyfer twristiaid. Mewn rhai achosion maent yn cael eu rhedeg fel ail fusnes neu 'hobi' hyd yn oed. Ond nid yw hyn yn golygu bod pysgodfeydd hamdden mewndirol yn werth llai nac ychwaith eu bod fel sector heb botensial anferth i lwyddo, fel y mae'r darn canlynol o wefan Llywodraeth y Cynulliad yn dangos:

"Mae pysgodfeydd hamdden Cymru o bwys cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mawr; nid i drigolion y Dywysogaeth yn unig, ond hefyd i ryw 400,000 o bobl bob blwyddyn sy'n dwyn pysgota yng Nghymru mewn cof wrth benderfynu ar ble i dreulio eu gwyliau."

"Mae ymchwil a noddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi tynnu sylw at werth presennol ein pysgodfeydd hamdden ac, yn arwyddocaol, eu potensial i dyfu fel ffynhonnell cyflogaeth yng nghefn gwlad.

Mae gan Gymru fwy na 240 o afonydd pysgota eog a brithyll, diddordeb cynyddol mewn pysgota bras mewn afonydd, cannoedd lawer o bysgodfeydd mewn llynnoedd naturiol, dros 20 o gronfeydd dŵr mawr, nifer gynyddol o bysgodfeydd dŵr llonydd bach wedi'u stocio, 150 cilomedr o lwybrau halio camlesi a 1200 cilomedr o arfordir lle y mae tua 300 o gychod hurio'n gweithio allan o borthladdoedd. Mae hi mewn sefyllfa ddelfrydol felly i gwrdd ag anghenion pysgotwyr ym mhob sector."
http://www.fishing.visitwales.com

Cyhoeddwyd Strategaeth Pysgodfeydd Hamdden Cymru ym mis Tachwedd 2003. Mae'r ddogfen yn disgrifio fframwaith lefel uchel y gall Cyrff Wedi'u Noddi gan y Cynulliad sydd â dylanwad ar bysgodfeydd, ecoleg, twristiaeth a datblygiad economaidd weithio trwyddo mewn partneriaeth â chyrff llywodraethu genweirio, clybiau a pherchnogion pysgodfeydd at gynyddu gwerth pysgodfeydd Cymru hyd yr eithaf.
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/fisheries/recreationalangling/?lang=cy

Nid yw'r ffeithiau a'r ffigurau canlynol yn holl-gynhwysol ond maent yn rhoi syniad o faint y mae'r sector yn ei gyfrannu at ecónomi Cymru.

	Trosiant blynyddol (£m)	Swyddi (yn cyfateb i swyddi amser llawn)
Genweirio gêm	8.2	171
Genweirio bras	39.4	90
Cyfanswm	**47.6**	**261**

Tabl 1: Cyfraniad at Ecónomi Cymru
(Addaswyd o *'Study into Inland and Sea Fisheries in Wales'* Nautilus Consultants, 2000)

Mae'r asiantaeth amddiffyn amgylchedd statudol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, yn cadw cronfa ddata o fwy na 250 o bysgodfeydd dŵr llonydd yng Nghymru. Mae o leiaf 20,000 o bysgotwyr bras yn byw yng Nghymru ac mae arolygon ar ymwelwyr a wnaed ym 1998 yn dangos bod 408,000 o ymwelwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau pysgota yn ystod eu hamser yng Nghymru. Ymwelodd pum-deg chwe mil o'r rhain â Chymru yn unswydd er mwyn pysgota.

Amcangyfrifir bod ymwelwyr sy'n genweirio'n gwario tua £63.7m y flwyddyn. Mae pysgota bras yn un o'r gweithgareddau hamdden mwyaf poblogaidd yng ngwledydd Prydain, ac mae Cymru'n denu pysgotwyr o rannau eraill o'r DU oherwydd ei thirweddau syfrdanol. Mae gan bysgodfeydd mewndirol yng Nghymru y potensial i gyfrannu at gyflenwad bwyd cynaliadwy a thwristiaeth gynaliadwy. Mae buddsoddi yn yr ecoleg sy'n tanategu'r busnes er mwyn sicrhau elw economaidd ymarferol yn un o'r allweddi i gyrraedd cynaladwyedd yn y sector pysgodfeydd.

Cryfderau

Mae'r rhychwant eang o gyfleoedd i bysgota a'r amgylchedd 'heb ei ddifetha' yn golygu bod pysgota hamdden yn boblogaidd. Nid yw'r safleoedd yn orlawn o bobl ac mae digon o le ar gyfer tyfiant o hyd ym mhob sector.

Pysgota bras

- Nifer fawr o safleoedd
- Mae'r stociau o bysgod bras yn iach
- Cyfranogaeth uchel gan breswylwyr Cymreig ac ymwelwyr
- Cefn gwlad deniadol yn y cyffiniau.

Pysgota gêm

- Costau cyfranogaeth mewn cymhariaeth â'r Alban, ond nid lwerddon
- Argaeledd trwyddedau
- Cefn gwlad deniadol
- Cyfleoedd amrywiol ar gyfer pysgota gêm o ran safleoedd a rhywogaethau.

Gwendidau

Diffyg datblygiad a chefnogaeth strategol /seilwaith marchnata, sy'n golygu nad yw darpar gwsmeriaid yn ymwybodol o gyfleoedd i bysgota. Mae'r cyfleusterau cysylltiol, y llety a rhwyddineb mynediad yn gallu bod yn wael.

Pysgota bras

- Diffyg cyfleoedd pysgota bras mewn cymhariaeth â physgota gêm
- Diffyg cyfleusterau ar gyfer pysgota cystadleuol
- Gwerth am arian yn amheus ar rai safleoedd
- Gweithgarwch anghyfreithlon (efadu talu am drwyddedau a sbesimenau sydd wedi cael eu potsio o lynnoedd).

Pysgota gêm

- Stociau pysgod gwyllt wedi'u dihysbyddu, yn enwedig eog
- Ansawdd y dŵr a risgiau llygredd.

Cyfleoedd

Gellir gwella'r safleoedd newydd a hen sefydlog, y llety, y cyfleusterau a'r mentrau marchnata'n sylweddol. Mae lle i dyfu o hyd ym mhob sector.

Pysgota bras

- Trefnu achlysuron rhyngwladol
- Recriwtio mwy o bobl nad ydynt yn bysgotwyr trwy gynnig cyfranogaeth fwy syml a hyfforddiant.

Pysgota gêm

- Targedu gweithgareddau marchnata, yn enwedig ar frithyllod môr *(Salmo trutta trutta), brithyllod afon (Salmo trutta sspp)* a phenllwydion *(Thymallus thymallus)*
- Cyfleoedd busnes yng nghyswllt ymwelwyr sy'n bysgotwyr.

Bygythiadau

Mae cryfder y bunt sterling (£) a'r gostyngiad yn y nifer o wyliau hir yn golygu bod llai o bobl yn ymweld â Chymru am gyfnodau hir. Mae hyn yn golygu bod angen hysbysebu gwyliau arbenigol megis pysgota, ond dylid cadw cydbwysedd rhwng y fath hysbysebu a phryderon amgylcheddol megis ymyrryd â bywyd gwyllt, amharu ar iechyd stociau pysgod ymfudol, ac anghenion defnyddwyr eraill.

Pysgota bras

- Gallai gweithrediadau pysgota masnachol manteisgar niweidio enw da pobl eraill
- Prinder safleoedd addas ar gyfer pysgota cystadleuol
- Llygredd a chlefydau sy'n lladd pysgod.

Pysgota gêm

- Pwysau ar gyrsiau dŵr gan weithgareddau datblygu
- Hawliau pysgota'n cael eu prynu gan garfannau o'r tu allan.

Tabl 2: Dadansoddiad SWOT ar gyfer pysgota bras a physgota gêm (addaswyd o *'Study into Inland and Sea Fisheries in Wales'* Nautilus Consultants, 2000).

Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Sut mae'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau i sector y pysgodfeydd hamdden mewndirol wedi newid ers 2000?
- Ai newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf erbyn hyn o ran cynnal stociau pysgod?

Datblygiad cynaliadwy yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r brif asiantaeth ymhlith eraill sy'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru. Gosododd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i hybu datblygiad cynaliadwy. Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol ei Gynllun ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy *Dysgu Byw'n Wahanol* ym mis Tachwedd 2000. Dilynwyd hwn gan gynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Cynllun mewn grym ym mis Mawrth 2001. Ers hynny mae adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi bob blwyddyn yn monitro perfformiad, ac yn sgil ymgynghoriadau fe gyhoeddwyd Cynllun diwygiedig ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy *Dechrau Byw'n Wahanol* yn 2004.

Mae Dechrau Byw'n Wahanol 2004 yn datgan: "bydd popeth a wnawn yn cael ei lywio gan egwyddorion a gweledigaeth y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Byddwn yn ymgorffori'r rhain yn ein gwaith ac yn mynd ati'n frwd i ddarbwyllo neu i'w gwneud yn ofynnol i eraill wneud yr un fath i sicrhau newid, e.e. awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, busnesau, y sector gwirfoddol a chymunedau. Byddwn yn ceisio eu galluogi i wneud hynny."

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol weledigaeth uchelgeisiol o Gymru gynaliadwy fydd yn golygu bod angen i bob un ohonom gymryd rhan os ydym am iddi lwyddo. Mae'r Cynulliad yn datgan y bydd ei gynlluniau'n seiliedig ar:

- Hyrwyddo economi amrywiol, gystadleuol, ag iddi werth uchel, gyda sgiliau ac addysg o safon uchel, sy'n ymateb i gyfleoedd datblygu cynaliadwy, sy'n defnyddio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd ac sy'n dosbarthu'r buddiannau orau y gellir
- Gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â thlodi, afiechyd, a chanlyniadau anfantais, ac yn rhoi cyfle i bobl a'u cymunedau dorri allan o'r trap tlodi
- Gweithredu yn ein hamgylchedd adeiledig a naturiol sy'n hybu balchder yn y gymuned, sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth, sy'n hybu cyflogaeth leol ac sy'n cadw gwastraff, a'r pwysau ar ynni, dŵr a thrafnidiaeth i'r lleiafswm
- Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a helpu i greu gwlad ddwyieithog, wrth edrych yn hyderus tuag allan a chroesawu dylanwadau diwylliannol newydd
- Creu man sy'n parchu ei blant a lle mae pobl ifanc am fyw, gweithio a mwynhau bywyd o ansawdd uchel, a lle mae cenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau gwell rhagolygon mewn bywyd heb iddynt gael cynhysgaeth o broblemau oddi wrthym ni
- Helpu pobl i fyw bywyd iach ac annibynnol, ni waeth a ydynt yn anabl, faint o incwm sydd ganddynt, neu lle maent yn byw
- Parchu pob aelod o'r gymdeithas a hybu cyfle cyfartal
- Hyrwyddo bod yn agored, partneriaeth a chyfranogaeth, fel y gall pobl chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ar lefel fyd-eang yn ogystal ag yn lleol, a chymryd i ystyriaeth effaith penderfyniadau a wnaed yng Nghymru ar y byd.

Gwelir datblygiad cynaliadwy yn aml fel mater amgylcheddol, ond mae'n gwestiwn hefyd o greu cyfoeth a mynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder[1].

Cwestiwn i feddwl amdano

Ym mha ffyrdd gallai Llywodraeth y Cynulliad weithredu fyddai'n cefnogi pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru?

Cymru ac SMEs[2]

- Diffinir Mentrau Bach a Chanolig Eu Maint, neu SMEs, fel rhai sy'n cyflogi rhwng 0 a 249 o weithwyr. Yn y DU mae yna 3.75 miliwn o fusnesau gweithgar, 85% ohonynt yn Lloegr. Ar draws holl ranbarthau'r DU, mae SMEs yn cyfrif am fwy na 99% o fusnesau
- Trwy'r DU i gyd, mae 55% o'r gweithlu'n gweithio mewn SMEs, ac mae SMEs yn cyfrif am 51% o drosiant ariannol
- Yng Nghymru, mae 67.1% o'r gweithlu'n gweithio mewn SMEs ac maent yn cyfrif am 61.4% o'r trosiant. Mae busnesau amaethyddol yn flaenllaw yn eu plith. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddisgwyl, gan fod 79% o Gymru'n dir amaethyddol, 14% yn goedwigoedd a dim ond 8% yn dir trefol

[1] http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?lang=cy

[2] Ystadegau am SMEs gan Wasanaeth y Busnesau Bach yn yr Adran Masnach a Diwydiant

- Mae SMEs sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat yn debyg o gael y bydd rhaid i'w gweithrediadau ddiwallu criteria penodol o ran cynaladwyedd cyn iddynt allu tendro am gytundebau. Fe fydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi busnesau mewn gwell sefyllfa i integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu gweithgareddau ac o ganlyniad ddiwallu'r gofynion hyn.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Allai'r galw cynyddol am gyflenwadau bwyd lleol gynyddu'r galw am bysgod i'r bwrdd? Allem ni weld carpiaid unwaith eto ar ein byrddau?
- Wrth i bobl chwilio am ffyrdd eraill o deithio yn lle hedfan er mwyn lleihau eu holion traed carbon, allai pysgodfeydd yng Nghymru ddenu mwy o ymwelwyr sy'n byw yng Nghymru?
- Ydy'r cynnydd diweddar mewn dewis ffyrdd mwy iachus o fyw yn cael effaith ar bysgodfeydd hamdden?
- Beth yw'r tair prif her sy'n wynebu eich busnes chi?

Ynghylch y prosiect

Mae'r fenter sy'n cael ei rhoi ar waith gan dîm o academyddion yn Ysgol yr Amgylchedd a'r Gymdeithas ym Mhrifysgol Abertawe yn dod a byddion i busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs).

Mae Arferion Proffesiynol dros Ddatblygiad Cynaliadwy – neu PP4SD yn y talfyriad Saesneg – yn brosiect cenedlaethol sydd wedi dylunio a chyhoeddi defnyddiau hyfforddi, ac sy'n cynnal cyrsiau hyfforddiant ar gyfer proffesiynolion mewn datblygiad cynaliadwy.

Fe fydd prosiect Abertawe'n targedu pedwar sector busnes yn ystod prosiect un flwyddyn: Dyframaeth, Rheolaeth Amgylcheddol, Rheoli Pysgodfeydd, a Gweithgynhyrchu Amaethyddol.

Fel rhan o ymrwymiad sector Addysg Uwch i weithio gyda diwydiant a'r gymuned ehangach, nod prosiect PP4SD yn Abertawe yw cynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs) yng Nghymru i fagu hyder trwy ymgorffori egwyddorion datblygiad cynaliadwy yn eu harferion gweithio.

Fe fydd prosiect PP4SD yn Abertawe'n darparu gweithdai un-dydd di-dâl a gwasanaeth ymgynghori ynghylch datblygiad cynaliadwy ar gyfer sefydliadau SME ledled Cymru.

Dywedodd Cyfarwyddwraig y Prosiect, y Dr Jane Claricoates:

"Mae PP4SD yn gallu helpu SMEs i symud tuag at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gynyddol dynn ynghylch cyflogaeth, iechyd a diogelwch, a'r amgylchedd, yn ogystal â'r galw cynyddol gan gwsmeriaid a defnyddwyr am arferion a chynhyrchion sy'n dda i'r amgylchedd. Fe all dynesiad cynaliadwy at gynllunio ac adrodd ym myd busnes helpu busnesau bach i ddod yn fwy effeithiol a chost-effeithiol a cystadleuol. Mae prosiect PP4SD yn brawf arall o ymrwymiad Prifysgol Abertawe i ddatblygiad cynaliadwy, fel un o nifer o fentrau sy'n digwydd ar y campws."

Ariennir prosiect PP4SD gan Gronfa Fanteisio ar Wybodaeth (KEF) yr Undeb Ewropeaidd, gyda grant o £300,000 trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, fe fydd y prosiect hwn yn Abertawe'n cydweithio'n glòs â LANTRA, Cyngor Sgiliau'r Sector i gynghori'r llywodraeth ynghylch hyfforddiant ar gyfer diwydiannau sy'n ymwneud â'r tir.

I gael mwy o fanylion am PP4SD, ymwelwch ag http://www.pp4sd.org.uk/